**Nid oes rhaid eithrio'r cyhoedd rhag gweld y papur hwn**

**Pwyllgor Cynllunio a Thrafnidiaeth EPT 14-00 (p5)**

Dyddiad: **13 Rhagfyr 2000**

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Teitl: **Drafft Terfynol : Polisi Cynllunio Mwynau Cymru**

**Diben**

1. Diben y papur hwn yw

i. hysbysu'r Pwyllgor bod Polisi Cynllunio Mwynau Cymru yn cael ei gyhoeddi; a
ii. rhoi adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghori a'r newidiadau sydd wedi'u gwneud i'r ddogfen ymgynghorol ddrafft o ganlyniad i hynny.

**Amseriad ac Argymhellion**

2. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r newidiadau sydd wedi'u gwneud i'r ddogfen ymgynghorol ddrafft a chytuno ar ddosbarthu'r ddogfen derfynol cyn gynted ag y gellir gwneud y trefniadau angenrheidiol i'w chyhoeddi. Gellir dod o hyd i'r ddogfen ar y fewnrwyd ar dudalennau Is-adran Gynllunio'r Cynulliad.

**Cefndir**

3. Ers 1988, cyhoeddir canllawiau ar gynllunio mwnau mewn cyfres o nodiadau Canllawiau Cynllunio Mwynau. Hyd at 1994, dosberthid y canllawiau ar y cyd rhwng hen Adran yr Amgylchedd a'r Swyddfa Gymreig. Ers 1994, cyhoeddir pob nodyn canllaw newydd ar gynllunio mwynau ar gyfer Lloegr yn unig gan hen Adran yr Amgylchedd, a ddaeth yn ddiweddarach yn Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau. Gan nad yw'r adolygiadau diweddar o bolisi ar fwynau wedi'u rhyddhau yng Nghymru, mae'r canllawiau polisi ar gyfer mwynau wedi hen ddyddio, yn arbennig o ran egwyddorion datblygu cynaliadwy sydd wedi datblygu ers Uwch-Gynhadledd Rio ar y Ddaear yn 1992.

4. Cynigir bod cyfres o ddogfennau ar gael i rychwantu pob agwedd ar ganllawiau cynllunio mwynau mewn ffurf debyg i Bolisi Cynllunio Cymru, hynny yw, prif ddogfen sy'n amlinellu polisïau'r Cynulliad ar fwynau fel y maent yn cyfeirio at Gymru ynghyd â chyfres o nodiadau cyngor technegol a gweithdrefniadol y byddai angen eu darllen ar y cyd â'r brif ddogfen polisi. Pan gânt eu rhyddhau, dylid cymryd y brif ddogfen polisi a'r Nodiadau Cyngor Technegol ar Fwynau i ystyriaeth gan yr awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi cynlluniau datblygu unedol. Efallai y byddant yn berthnasol i benderfyniadau ar geisiadau cynllunio unigol a byddai'r Cynulliad yn eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu ar apelau a cheisiadau cynllunio a ofynnir amdanynt.
5. Nodiadau Cyngor Technegol ar Fwynau ar gyfer Agregiadau a Glo yw'r blaenoriaethau brys ac mae'r paratoi eisoes ar y gweill ar eu cyfer. Bwriedir rhoi adroddiad ar y rhain i'r Pwyllgorau a gynhelir ar 31 Ionawr a 14 Chwefror.

**Ystyriaeth**

6. Gofynnwyd am y fersiwn drafft o'r ddogfen ymgynghorol a ddosbarthwyd at ddibenion ymgynghori ar 25 Tachwedd 1999 a'r sylwadau erbyn 11 Chwefror 2000, er i rai gael eu hanfon ar ôl y dyddiad terfynol gyda rhai'n cyrraedd mor hwyr â mis Awst. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliwyd Seminar ym mis Ionawr yn Llandrindod ac fe'i mynychwyd gan tua 80 o bobl o'r awdurdodau cynllunio mwynau, y diwydiant mwynau a sefydliadau eraill. Daeth 90 ymateb i law gyda sylwadau ar y ddogfen ddrafft ac roedd rhai ohonynt yn rhoi sylwadau helaeth. Rhoddwyd croeso yn gyffredinol i'r ddogfen polisi ddrafft a ddosbarthwyd. Rhoddir crynodeb o'r prif faterion a gododd yn y sylwadau isod:

- **Effaith ar yr amgylchedd** – mynegwyd pryder am y niwed y gall cloddio mwynau ei wneud i'r dirwedd ac i ardaloedd pwysig ym maes cadwraeth natur a'r rheoli annigonol sydd ar effeithiau'r sw^n, y llwch a'r cryndod a ddaw yn sgîl y tanio;

  *Sylwadau – diwygiwyd y ddogfen yn dilyn ymgynghori pellach â'r Is-adran Gefn Gwlad i sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i gynigion sy'n agos at Barciau Cenedlaethol neu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol er mwyn diogelu awyrgylch yr ardaloedd hyn. Datblygwyd a chyfnerthwyd y testun sy'n cyfeirio at ddiogelu adnoddau dw^r daear a dw^r wyneb, a thir amaethyddol. Ehangwyd y testun sy'n cyfeirio at fonitro safleoedd i bwysleisio'r angen i awdurdodau lleol ymgymryd â'r gwaith hwn.*

- **Adfer ac ôl-ofal** – cafwyd amrywiol safbwyntiau am y safonau presennol sydd wedi'u gosod o ran adfer. Y farn oedd y dylai'r gweithredwr mwynau, sef y llygrwr, adfer y tir a'r cynefinoedd, ond hefyd, i'r gwrthwyneb, y dylid adfer rhai safleoedd i'r graddau lleiaf posibl er mwyn galluogi ail-dyfiant a, thrwy hynny, annog bioamrywiaeth. Rydym wedi ceisio gwneud darpariaeth ar gyfer y dull arloesol hwn o weithredu ym maes adfer yr amgylchedd. Ystyriai llawer nad oedd cyfnod

ôl-ofal o bum mlynedd yn ddigon ar gyfer ôl-ddefnyddiau sydd heb fod yn rhai amaethyddol. Er y cytunwyd ei bod yn hanfodol bod strategaeth ar gyfer adfer ar gael adeg gwneud y cais cynllunio, roedd angen hyblygrwydd yn y dull o weithredu ac adolygiad o'r strategaeth ar gyfer adfer wrth i'r gweithgareddau fynd yn eu blaenau;

*Sylwadau – adlewyrchwyd y safbwyntiau hyn yn y newidiadau a wnaed i'r testun ac fe'u datblygir ymhellach wrth baratoi Nodiadau Cyngor Technegol ar gyfer mwynau penodol a fydd yn dilyn yn fuan.*

- **Gwarantau/Bondiau Ariannol** – ystyriai'r diwydiant mwynau mai dim ond mewn achosion eithriadol y dylid mynnu ar fondiau. Ystyriai'r awdurdodau cynllunio mwynau a'r sefydliadau amgylcheddol bod bondiau yn hanfodol i sicrhau'r cymunedau lleol y byddai adfer amserol a boddhaol yn digwydd;

  *Sylwadau – diwygiwyd y testun i alluogi awdurdodau cynllunio lleol i fynnu ar fondiau i sicrhau adfer boddhaol, lle bo hynny'n rhesymol.*

- **Clustogbarthau** – yn gyffredinol, derbyniwyd yr egwyddor o Glustogbarthau, ond mynegwyd gwahanol safbwyntiau am yr isafswm pellter o 200 metr a geir yn y ddogfen ymgynghorol ddrafft. Roedd llawer yn ystyried bod y 200m yn anhyblyg ac yn rhy benodol, tra nad oedd eraill yn deall y syniad o isafswm pellter gan gymryd mai 200m oedd union ddiffiniad maint y Clustogbarth ac, felly, teimlai rhai fod y canllawiau'n rhy wan wrth beidio â chynnig bod maint y Clustogbarthau yn 500m fel yng nghanllawiau'r Alban ar gyfer glo.

  *Sylwadau – cadwyd yr egwyddor o glustogbarthau ynghyd â'r egwyddor o isafswm pellter oddi wrth ddatblygiadau sensitif, ond ni chynhwysir manylion yr isafswm pellter yn y canllawiau. Yn hytrach, trafodir y mater hwn yn y Nodyn Cyngor Technegol sydd i ddod. Bydd angen amrywio'r isafswm pellter yn ôl y math ar fwyn a'r math ar weithgarwch, a'r Nodiadau Cyngor Technegol yw'r lle gorau i roi'r manylion hyn. Mae angen mwy o ymchwil i benderfynu ar y pellteroedd sy'n briodol i wahanol fathau ar fwyngloddio. Mae disgwyl i'r rhain amrywio yn ôl natur y gweithgarwch sydd ei angen i gloddio mwynau penodol.*

- **Safleoedd segur** - mynegwyd y farn bod y cynnydd arfaethedig yn y defnydd o Orchmynion Gwahardd gan yr awdurdodau lleol yn afresymol oherwydd y goblygiadau o ran iawndal a'r anawsterau gweithdrefniadol;

  *Sylwadau – ac eithrio mân newidiadau i'w gwneud yn fwy clir, mae'r adran hon heb newid. Bydd angen trafod â'r awdurdodau lleol y pryderon ynghylch defnyddio Gorchmynion Gwahardd ac ystyried a ddylid cynnig newidiadau yn y*

*ddeddfwriaeth berthnasol.*

- **Neilltuo safleodd ar gyfer cloddio mwynau yn y dyfodol** – er bod rhywfaint o gefnogaeth am fwy o sicrwydd gan gynnwys neilltuo safleodd yn y Cynlluniau Datblygu Unedol, ystyriai'r awdurdodau lleol ei bod ar y cyfan yn amhosibl penderfynu ar safleoedd ar gyfer cloddio glo yn y dyfodol oherwydd anwybodaeth am yr adnoddau, a byddai'r safleoedd mor ddadleuol nes y byddai oedi mawr cyn mabwysiadu'r Cynlluniau Datblygu Unedol.

  *Sylwadau – Rhannwyd yr adran ar ardaloedd cloddio yn y dyfodol er mwyn rhoi cyngor ar wahân ar gyfer mwynau ynni a di-ynni. Trafodwyd y polisi ar safleoedd mwynau ynni at y dyfodol yn y cyfarfod â'r Prif Ysgrifennydd ar 9 Hydref pryd y penderfynwyd bod polisïau ar sail meini prawf yn fwy priodol ar gyfer glo. Newidiwyd y testun yn unol â hyn.*

- **Defnydd effeithiol o fwynau/canolfannau ailgylchu** – cafwyd cefnogaeth sylweddol i'r syniad o hyrwyddo ailgylchu, a'r broses o warchod mwynau a'u defnyddio'n effeithiol, er y mynegwyd pryder na allai'r amodau cynllunio sicrhau defnyddio mwynau at y dibenion a nodir yn y cais cynllunio.

  *Sylwadau – mae'r adran hon ar y cyfan heb ei newid ac eithrio brawddeg ychwanegol i ofyn bod cyn lleied ag sy'n bosibl o wastraff yn cael ei gynhyrchu yn ystod y cloddio a'r prosesu.*

- **Cludo'r mwynau** – cafwyd cefnogaeth i'r syniad o hyrwyddo cludo'r mwynau ar y rheilffyrdd ac ar ddw^r. Awgrymwyd bod y testun yn esbonio'r cymorth ariannol sydd ar gael eisoes i ddatblygu seilwaith i gludo nwyddau, a'r problemau a achosir wrth gludo mwynau ar hyd llwybrau gwledig a phreswyl;

  *Sylwadau – Cyfnerthwyd yr adran ar gludo mwnau i hyrwyddo hyd yn oed ymhellach y syniad o gludo mwynau ar y rheilffyrdd ac ar* ddw^r *ac i sicrhau yr ystyrir yn ofalus yr effaith bosibl ar lwybrau gwledig a phreswyl o gael eu defnyddio gan gerbydau sy'n cludo mwynau.*

- **Diogelu cymunedau** – mynegwyd yn gryf, yn enwedig yn y Seminar, yr angen i ddiogelu buddiannau cymunedau rhag effaith andwyol y broses o ddatblygu mwynau (yn enwedig o ran cloddio glo);

  *Sylwadau – ychwanegwyd yr angen i ystyried diogelu cymunedau i sicrhau na anwybyddir y buddiannau hynny. Roedd y canllawiau polisi drafft eisoes yn gwneud darpariaeth ar gyfer diogelu'r amgylchedd rhag effaith andwyol mwyngloddio.*

- **Egwyddorion cynaliadwy** – mynegwyd y farn nad oedd y ddogfen ddrafft yn diffinio datblygu cynaliadwy yng nghyd-destun yr angen i ddarparu mwynau yng Nghymru;

  *Sylwadau – digwygiwyd y testun yn unol â hyn i adlewyrchu cynllun Datblygu Cynaliadwy'r Cynulliad ac i gynnwys datganiad clir o'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer cloddio a defnyddio mwynau yng Nghymru ar sail amcanion cynaliadwy.*

7. Mynegwyd y farn y dylid cael cylch arall o ymgynghori ac y dylai fod yn amodol ar Arfarniad Amgylcheddol Strategol cyn dosbarthu'r ddogfen derfynol. Honnir bod y cyhoeddusrwydd wedi bod yn wan a bod rhan o'r cyfnod ymgynghori adeg gwyliau'r Nadolig. Ni dderbynnir hyn. Parhaodd y cyfnod ymgynghori am 11 wythnos. Tra y daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 11 Chwefror, derbyniwyd sylwadau hwyr a daeth rhai i law mor hwyr â mis Awst. Byddai cylch arall o ymgynghori yn achosi oedi mawr cyn cwblhau'r ddogfen polisi derfynol y mae'r diwydiant mwynau a'r awdurdodau lleol wedi bod yn ei disgwyl ers llawer dydd. Nid oes unrhyw ofyniad bod rhaid i ddogfennau polisi fod yn amodol ar Arfarniad Amgylcheddol Strategol.

**Cydymffurfiaeth**

8. Bydd Polisi Cynllunio Mwynau Cymru yn ategu Polisi Cynllunio Canllawiau Cynllunio (Cymru) (a fydd yn dod yn Bolisi Cynllunio Cymru adeg y diwygiad nesaf), er mwyn rhoi datganiad o bolisi'r Cynulliad ar ddefnyddio'r tir a materion cynllunio eraill. Gyda'i gilydd, maent yn ffurfio fframwaith ar gyfer swyddogaethau cynllunio a rheoli datblygiadau yng Nghymru sydd wedi'u trosglwyddo i Gymru yn rhinwedd y Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau. Mae pw^er gan y Cynulliad i wneud unrhyw beth atodol i ymarfer ei swyddogaethau statudol (Adran 40 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998). Mae'r llysoedd wedi derbyn bod y canllawiau cynllunio o bwys a bod rhaid i'r awdurdodau cynllunio lleol eu cymryd i ystyriaeth, lle bo'n briodol. Wrth ffurfio polisïau cyffredinol yn y cynllun datblygu unedol, bydd rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol gymryd y polisïau cenedlaethol cyfredol i ystyriaeth ynghyd ag unrhyw ganllawiau cynllunio rhanbarthol neu strategol i'w cynorthwyo i lunio'r cynllun (Adran 12(6) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990), fel y'i diwygiwyd, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth ac ystyriaethau eraill y gallai'r Cynulliad eu pennu neu roi cyfarwyddiadau arnynt (Adran 12 (7A) o'r uchod).

**Gweithredu**

9. **Gofynnir i'r Pwyllgor gytuno ar y newidiadau i'r ddogfen ymgynghorol ddrafft ac ar gyhoeddi Polisi Cynllunio Mwynau Cymru.**

**Swyddog Cyswllt**

Martin Evans, Cyfarwyddwr Grw^p, Grw^p Trafnidiaeth, Cynllunio a’r Amgylchedd. Est 5727 *E-bost: MartinL.Evans@Wales.gsi.gov.uk*